

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 191

Pris 80c

Mis Ebrill 2017



Hwyl gyda Choleg Gwent.....

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** bethanjones@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Yr Uchod, Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, a Dilys Williams

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Gwasanaethau Capeli Cymraeg Mis Ebrill

Bethel

2ail 10.30 Dr Eirian Dafydd

9fed 10.30. Arfon Jones

16eg Oedfa Gymun: Parch Peter Dewi Richards

23ain 10.30 Parch. Milton Jenkins

30ain Y Parch. Lona Roberts

Tonyfelin

2ail Bore a hwyr Parch Milton Jenkins

9fed 10.30 Parch Ray Vincent 6.00 Mr Cyril Smith

16eg Sul y Pasg Bore/hwyr Parch. Milton Jenkins

23ain Cydaddoli ym Methel

30ain 10.30 Mr Gareth Hughes

6.00 Parch. Glyn Tudwal Jones

Capel y Groeswen

23ain Gwasanaeth y Pasg 3:00 yp Mr Martyn Lewis

Hanes Cwm Ni

4/5/17 Huw Llywelyn Davies

'Hanes darlledu yn y Gymraeg ym
myd y campau'

8/6/17 Hefin Mathias

'David Davies Llandinam a'i waith
dros hybu heddwch yng Nghymru'

6/7/17 Allan Cook

Trip o gwmpas Canolfan
Llong Ganoloesol Casnewydd

6pm: Uned 20, Estuary Road
Casnewydd, NP19 4SP

7:30pm: Bwyd, manylion i'w dilyn

Ble?

Clwb Rygbi Penallta,
Ystrad Mynach, CF82 7EP
Faint o'r gloch? 7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702



**Eisiau dysgu mwy am hanes
yr ardal? Dewch i wrando.**

**Addas ar gyfer dysgwyr
lefelau UWCH / HYFEDREDD
Digwyddiad am ddim.**



Teuluoedd Gwent yn mwynhau dysgu Cymraeg

Buodd 25 teulu o Went ar antur i wersyll yr Urdd, Llangrannog am benwythnos cyfan i ddysgu'r



Gymraeg, gyda'i gilydd. Roedd dosbarthiadau ar gyfer yr oedolion a nifer o weithgareddau amrywiol ar gyfer y plant. Roedd y penwythnos yn cynnig cyfle unigryw i'r dysgwyr roi'r Gymraeg ar waith mewn awyrgylch anffurfiol gyda theuluoedd eraill, i gyd gyda'r un gôl.

Roedd rhaglen lawn o ddosbarthiadau Cymraeg ar bob lefel o ddechreuwr pur hyd at hyfiedredd, gyda'r dosbarthiadau'n cael eu cynnal tra oedd y plant yn dilyn gweithgareddau amrywiol o dan ofal arweinwyr profiadol a chymwys. Roedd y rhain yn cynnwys sgïo, merlota, ceirt modur, gwibgartio, saethyddiaeth, nofio a llawer mwy!

Cafodd y teuluoedd eu diddanu gan Alys Williams (Pan Fo'r Nos yn Hir a *The Voice*) ar nos Wener, gydag ymwelydd arbennig ar brynhawn dydd Sadwrn, seren y môr, Ben Dant! Roedd cyfle i'r plant ymuno â'r canu, dawnsio a cheisio dod o hyd i'r gwobrau ar helpa drysor arbennig o gwmpas y Gwersyll.

"Roedd y penwythnos wedi denu dros 70 o Went, sef 25 o deuluoedd ac yn cynnig cyfle arbennig i'r dysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd" dywedodd Mair Lenny Turner, Swyddog Cymraeg i'r Teulu, Dysgu Cymraeg Gwent. "Gwyliau ar gyfer y teulu cyfan, gyda rhywbeth at ddant pawb".

"Mae'n galonogol gweld cymaint o ddysgwyr o Went yn gwneud cynnydd mor wych a dyn ni'n edrych ymlaen at weld pawb eto'r flwyddyn nesaf".

Am fwy o wybodaeth am ddysgu Cymraeg yng Ngwent, cysylltwch â Dysgu Cymraeg Gwent ar welsh@coleggwent.ac.uk neu dysgucymraeg.cymru.



Ethan Gregory - Proffil Chwaraeon



Yn ddisgybl Blwyddyn 10 yn Ysgol Y Gwyndy Caerffili ac mae Ethan yn hoff iawn o chwaraeon.

Mae'n chwarae rygbi dros ei ysgol, yng Nghlwb Rygbi Caerffili dan bymtheg ac yn cynrychioli Ysgolion Rhanbarth Cwm Rhymni.

Mae wedi bod yn aelod o Glwb Karate Kayokushinkai Caerffili am nifer o flynyddoedd ac, yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi cynrychioli Cymru ar lefel dan bymtheg mewn nifer o gystadlaethau rhyngwladol.

Ei darged nesaf yw Aur yn y Swistir, Mawrth 2017.

Canlyniadau Eisteddfod Gylch Cwm Rhymni

181 Unawd Bl. 2 ac iau

Isabelle Moger	Ysgol Gymraeg Bro Allta	1af
Eleanor Wright-Nicholas	Ysgol Gymraeg Y Castell	2il
Isac Shutt	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	3ydd

182 Unawd Bl. 3 a 4

Seryn France	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	1af
Jessica Williams	Ysgol Y Lawnt	2il
Macey Morris	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	3ydd

183 Unawd Bl. 5 a 6

Elliot Harrington	Ysgol Ifor Bach	1af
Millie Evans	Ysgol Y Lawnt	2il
Matthew Bie	Ysgol Gymraeg Y Castell	3ydd

184 Deuawd Bl. 6 ac iau

Maddie a Seren	Ysgol Gymraeg Bro Allta	1af
Luke a Grace	Ysgol Ifor Bach	2il
Jasmine a Alaw	Ysgol Gymraeg Trelyn	3ydd

189 Parti Unsain Bl. 6 ac iau (Ysg. dros 50)

Parti Ffion	Ysgol Gymraeg Bro Allta	1af
Parti Unsain Y Castell	Ysgol Gymraeg Y Castell	2il
Parti Trelyn	Ysgol Gymraeg Trelyn	3ydd

191 Côr Bl. 6 ac iau (Y.C.) (Ysg. Dros 150)

Cor Ifor Bach	Ysgol Ifor Bach	1af
Parti Ysgol y Castell	Ysgol Gymraeg Y Castell	2il
Parti Gilfach Fargod	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	3ydd

192 Parti Deulais Bl. 6 ac iau (Y.C./Adran)

Parti Ysgol y Castell	Ysgol Gymraeg Y Castell	1af
Parti Trelyn	Ysgol Gymraeg Trelyn	2il
Parti Ifor Bach	Ysgol Ifor Bach	3ydd

216 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau

Jasmine Cox	Ysgol Gymraeg Trelyn	1af
Tayla Gallacher	Ysgol Gymraeg Y Castell	2il
Maddie Malpas	Ysgol Gymraeg Bro Allta	3ydd

337 Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau

Ethan Williams	Ysgol Gymraeg Y Castell	1af
Joey Bell	Ysgol Gymraeg Bro Sannan	2il
Amelia Gannon	Ysgol Gymraeg Trelyn	3ydd

338 Llefaru Unigol Bl. 3 a 4

Brychan Shawley	Ysgol Gymraeg Y Castell	1af
Meghan Williams	Ysgol Gymraeg Bro Allta	2il
Lowri Jones	Ysgol Ifor Bach	3ydd

339 Llefaru Unigol Bl. 5 a 6

Seren Williams	Ysgol Gymraeg Bro Allta	1af
Harriet Wright-Nicholas	Ysgol Gymraeg Y Castell	2il
Lewys Hawkins	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	3ydd

340 Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau

Grwp Llefaru Cwm Derwen	Ysgol Gymraeg Cwm Derwen	1af
Parti Ysgol y Castell	Ysgol Gymraeg Y Castell	2il
Parti Gilfach Fargod	Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	3ydd

349 Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau (D)

Dylan Evans	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin	1af
Kate Bailey	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin	2il
Ruben West	Ysgol Gynradd Cwm Ifor	3ydd

350 Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 (D)

Kate Ager	Ysgol Gynradd Coed-y-Brain	1af
Amelia Regulski	Ysgol Gynradd Plasyfelin	2il
JAYNE MAX	Ysgol Gynradd St Gwladys	3ydd

351 Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 (D)

Ella Hicks	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin	1af
Olivia Paynter	Ysgol Gynradd Coed-y-Brain	2il
Leah Caswell	Ysgol Gynradd St. James (Parc Lansbury)	3ydd

352 Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau (D)

Parti Lily	Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf	1af
Parti Coed-Y-Brain	Ysgol Gynradd Coed-y-Brain	2il
Parti Cwrt Rawlin	Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin	3ydd

Diolch o galon i Helen Greenwood, Trefnydd Rhan Amser yr Urdd am ei chofnodi manwl

Chwaraeon yr Urdd ar Gaeau y Gwyndy

Rygbi Tag i Ferched Pêl Droed

1af Ysgol y Fenni



1af Ysgol Gymraeg Caerffili



2ail Ysgol Cwm Gwyddon



2ail Ysgol Gynradd Sant Gwladys



3ydd Ysgol y Castell, Caerffili



3ydd Ysgol Trelyn




Grŵp o ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Gelli Haf a'r Gwyndy ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn mwynhau penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd.



Posau'r Plant gan Mary Jones

Mae NAW wy Pasg wedi'u cuddio yn y llun cyntaf. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw? Wedyn, allwch chi ffeindio'ch ffordd drwy'r dryswch at yr wy Pasg yn y canol?

Mae'r atebion ar waelod Tudalen y Dysgwyr.



Codi Arian i Fenter Patagonia

Cynhaliwyd Noson Gwis yn festri Tonyfelin, nos Wener, 17eg o Fawrth i godi arian i'r bobl ifanc sy'n mynd draw i Batagonia.

Dr Eirian Dafydd oedd yn holi ac roedd y cwis yn un neilltuol o dda. Gwelir tîm y "Golden Oldies", a fu'n fuddugol isod. Mae Owain Ash a Joanne Zajac, sy'n mynd i'r Wladfa gyda nhw. Deallwn fod y ddau wedi casglu mwy na hanner yr arian sydd ei angen.

Dyma rhai o'r limrigau a ysgrifennwyd fel rhan o'r hwyl.

Bydd dau o ddisgyblion Cwm Rhymni
yn hedfan i'r Wladfa eleni;
dros fôr a thir
bydd eu taith yn hir
wrth deithio tua'r goleuni.

Merched Beca/Blodeuwedd

Bydd dau o ddisgyblion Cwm Rhymni
yn hedfan i'r Wladfa eleni;
ar ôl croesi'r Paith
a sangria'r traeth
bydd 'tango' a 'salsa' a pharti.

Washington

Bydd dau o ddisgyblion Cwm Rhymni
yn hedfan i'r Wladfa eleni;
i gyflwyno'r iaith
i drigolion y Paith,
y señoras a'r señoritas lyfli.

Golden Oldies

Bydd dau o ddisgyblion Cwm Rhymni
yn hedfan i'r Wladfa eleni;
mae'n dipyn o daith
i fagu'r iaith –
cofiwch bacio'r caws o Gaerffili.

Y Gauchos



Sgwad Sgwennu

mentercaerffili.cymru

Y rapiwr a cherddor Rufus Mufasa oedd yn arwain sgwad sgwennu cyntaf 2017 yng nghanolfan y Glowyr Coed-duon. Mae aelodau'r sgwad yn blant o ysgolion ar draws y Sir, ac mae'r sgwad yn agored i blant sydd yn mwynhau bob math o ysgrifennu a bod yn greadigol.

Gyda newidiadau'r gwanwyn yn amlwg o gwmpas y sir, y thema oedd tymhorau.

Creodd y plant waith arbennig yn tynnu ysbrydoliaeth o'r nwyddau amrywiol ddaeth Rufus gyda hi. Fe wnaeth rhai o'r plant gyfuno gwaith celf gyda geirfa, ac eraill wedi creu cerddi

Fy Eirlys bach

Mae fy Eirlys bach,
Ei wyneb glân,
Y blodyn eira gwyn,
Y gaeaf i'r gwanwyn,
Yn blaguro'n iach,
Yn canu cân,
Yn llifo fel llyn,
yn hapus a llawen.

Tymhorau

Gwanwyn, blodau'n blaguro
Oen yn breffu, a coed yn tyfu.
Hâf, yn heulog a braf,
Nofio, dringo, a joio mas draw
Hydref, concers a phry cop
Dechrau oeri a nôl i'r ysgol.
Rhagfyr, eira yn cwympo,
Dim blodau yn blaguro.

Yr Hâf

Amser teulu, amser hwyl,
Amser hapus, amser haul.
môr gwyllt, hufen ia,
Haf yw'r tymor gorau ar gael.

Fy Haf

Bwyta hufen ia a sglods,
Bwyta candy floss a hot dogs.
Heb anghofio'r hufen ia,
un Hokey pokey wrth gwrs!
Nofio yn y mor, rhedeg ar y traeth,
Barbaciwio pysgod ac yfed llaeth.
Syrffio a hwylio,
Heb anghofio snorclo wrth gwrs!



Os ydych chi yn gwybod am blentyn fyddai'n hoffi bod yn rhan o'r sgwad, cysylltwch a bethanjones@mentercaerffili.cymru

Mae hanes bob amser yn ansicr. Mater o ddeall a dehongli'r dystiolaeth ydyw, ac mae pob dehongliad yn dibynnu ar safbwynt yr hanesydd, sy'n penderfynu sut y mae'n gwerthuso a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael.

Lleihau'n gyson wnaiff pob tystiolaeth wrth i ni fynd yn ôl mewn amser. Mae treigl amser, terfysg ac anwybodaeth yn elynion i gofnodion o bob math. Ond y mae gennym dystiolaeth gadarn iawn yn ein cwm ni i gyfnod pell, pell yn ôl. Ei dehongli yw'r her.

Carreg enwog ar fynydd Gelligaer yw un o'r darnau prin sydd gennym o fywyd pobl yn yr ardal hon ryw fil a hanner o flynyddoedd yn ôl. Hon yw carreg Nefrohi, 'amddiffynnydd y grug', a osodwyd mewn adfeilion bedd o Oes yr Efydd, yn agos at yr hen heol Rufeinig. Mae'r arbenigwyr yn dyddio'r garreg honno i ddiwedd y chweched neu ddechrau'r seithfed ganrif O.C., ac yn meddwl mai enw Gwyddelig yw Nefrohi. Er i ddarnau o'r garreg gael eu distrywio gan ddynion, a'r llythrennau sydd i'w gweld o hyd gael eu treulio gan amser, mae gennym gofnod manwl ohonynt a wnaethpwyd gan yr hynafieithydd Edward Llwyd ym 1695. Felly er bod y garreg yno o hyd, mae ei dehongli'n dibynnu'n gyfangwbl ar dderbyn canfyddiadau a dehongliadau eraill.

Ymhellach i'r dwyrain, yn agos at hen gapel Brithdir uwchben Bargod, roedd carreg arall gydag arysgrif arni. Symudwyd y garreg wreiddiol i'r Amgueddfa Genedlaethol ym 1922, er mwyn ei diogelu, ond mae piler concrît wedi ei godi i nodi ei safle, ac mae copi o'r garreg ei hun i'w gweld yn amgueddfa'r Tŷ Weindio. O graffu'n ofalus, fe welwch arni'r llythrennau hyn: TEGERNA/CUSFILI/USMARTI/HICIACIT – 'Mae Tegernacus, mab Martius, yn gorwedd yma'. Mae'r enw *Tegernacus* o'r un gwreiddyn â'r gair Cymraeg *teyrn*, sydd wedi rhoi *teyrnas* a *teyrnasu* i ni mewn Cymraeg heddiw. Mae'r geiriau'n awgrymu'n gryf mai carreg fedd oedd hon, ond does dim olion bedd wedi eu darganfod ar y safle, er yr holl gloddio

sydd wedi bod yno. Yn ôl yr arbenigwyr mae'r ysgrifen ar garreg Tegernacus yn perthyn i'r bumed neu'r chweched ganrif. Mae ffaith taw Lladin yw iaith yr arysgrif yn peri i ni feddwl y byddai Tegernacus a'i deulu yn cyfrif eu hun yn Rhufeiniaid er eu bod nhw yn siarad iaith oedd yn fam i'n hiaith ni heddiw. Ond nhw, efallai, oedd y genhedlaeth olaf i feddwl felly. Ond dyma ragor o ddamcaniaethau a dehongliadau!

Wrth i adfeilion capel Brithdir ei hun gael eu dymchwel ym 1960, darganfuwyd llechen o dywodfaen gyda chroes ar un ochr iddi, a phatrwm o linellau a chylchoedd ar yr ochr arall. Does dim ysgrifen o gwbl ar y garreg hon, ac mae'n amhosibl i'w dyddio'n bendant – mae'r cynnig diweddaraf yn ei gosod rywbryd yn ystod y seithfed i'r nawfed ganrif O.C. Mae'r garreg hon i'w gweld heddiw yn Eglwys St Gwladus, Bargod.

Saif Capel Gwladus ar fynydd Gelligaer, wrth gwrs, a darganfuwyd carreg fedd gynnar yno ym 1906. Mae croes Geltaidd wedi ei cherfio ar y garreg, ac mae'n perthyn i'r wythfed neu'r nawfed ganrif. Symudwyd y garreg hon yn ei thro i eglwys Gelligaer ei hun.

Rhyfedd yw edrych ar y tri safle ar y map, a gweld mor agos ydynt i'w gilydd. Er mor gadarn yw'r cerrig a ddarganfuwyd, anodd yw dehongli eu tystiolaeth. Eto i gyd, maen nhw'n dal i ddweud rhywbeth wrthym ni heddiw am y bobl a fu'n cerdded yr erwau hyn fil a hanner o flynyddoedd yn ôl, yn ffermio'r tir, yn mwynhau dyfodiad y gwanwyn, yn cadw'r Grawys ac yn dathlu'r Pasg – a hynny mewn iaith sy'n hen-famgu i'n Cymraeg ni.

Coleg Gwent

Cyrsiau Dydd Sadwrn

Pob un rhwng 09:15 a 15:45

08/04/17 LLAC Glyn Ebwy

13/05/17 Campws Pont-y-Pŵl

Mae'r **Ysgolion Undydd** yn cael eu cynnal ar hyd a lled Gwent ar ddydd Sadwrn am 5 awr o ddysgu. **£10 yn unig.**

Coleg Gwent

Cyrsiau Penwythnos

Pob un rhwng 8:45 a 17.00

20-21/05/17 Sad-Sul Campws Pont-y-pŵl

24-28/07/17 Llun-Gwe Campws Pont-y-pŵl

30/06-02/07/17 Gwe-Sul Llambod

Mae'r **Ysgol Haf** yn cynnwys 30 awr o wersi dros gyfnod o bum niwrnod. Bydd 8 lefel. **£50 yn unig.**

Newyddion Diweddaraf am BanglaCymru



Daeth diwedd 2016 â chryn brysurdeb i weithwyr BanglaCymru pan drefnwyd sesiynau llawdriniaeth mewn tair ysbyty mewn amrywiol rannau o Fagladesh. Anodd yn aml yw cynllunio ymlaen llaw oherwydd dibynnwn ar ysbytai sy'n gwybod am waith yr elusen i gysylltu â ni, a hefyd dibynnwn ar y cleifion taflod hollt sydd wedi cofrestru i ddod i'r ysbyty ar y dyddiau penodedig.

Un ffactor drist sydd wedi effeithio'n andwyol yn ddiweddar ar gyllid BanglaCymru yw'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Oherwydd bod gwerth y bunt wedi gostwng tua

18% yn ei gwerth o'i chymharu â'r taka (arian cyfredol Bangladesh) fe gyst pob llawdriniaeth yn nes at £200 erbyn hyn. Cawsom siom hefyd ar ôl cael manylion adeilad delfrydol ar ein cyfer a chytuno ar bris, pan gododd y pris hwnnw'n sylweddol mewn ychydig ddyddiau; adeilad oedd yn bosib ei fforddio fel canolfan feddygol cyn y refferendwm. Erbyn hyn, fodd bynnag, rydym wedi cytuno ar rentu lle sy'n gweddu'n berffaith ar brydles am bum mlynedd.

Oherwydd y penderfyniad i symud ein canolfan feddygol yn Chittagong mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i fraenaru'r tir yn ein hardal newydd. Mae ein hymwelydd iechyd, a gyflogir gan Siroptomists Pontypridd, wedi bod yn ddiwyd yn ymgynffwrdd â'r ardal newydd ac yn dod i adnabod y gymuned gan ledaenu'r newyddion fod canolfan newydd yn cael ei hagor lle y gallant weld y meddyg, a hynny heb dâl. Cynhaliwyd 'gwrsyll meddygol' yn barod yn yr awyr agored yn yr ardal gan Dr Jishu, ein cydlynnydd meddygol. Mawr fydd ein llawenydd pan agorwn y ganolfan ddechrau'r flwyddyn.

Cynhaliodd Dr Jishu sesiwn llawdriniaethau yn ne Bangladesh am ddeuddydd mewn dwy wahanol ysbyty ar ddechrau Rhagfyr. Yn ystod y cyfnod hwn perfformiwyd 11 o lawdriniaethau. Yna, yn ystod dyddiau olaf Rhagfyr cynhaliwyd sesiwn dridiau yn Tangail; dinas yng nghanolbarth y wlad lle y bu'r tîm meddygol yn gweithio yn y gorffennol. Bu Dr Jishu a'i dîm meddygol yn gweithio'n ddiwyd o'r bore bach tan hwyr y nos yn perfformio 50 o lawdriniaethau. Un stori a gyffyrddodd galonnau oedd hanes bachgen amddifad 10 oed a welodd luniau mewn hysbyseb BanglaCymru ac a gerddodd filltiroedd ar ei ben ei hun i Tangail i ofyn am driniaeth ar ei wefus wyrgam afluniaidd. Bydd iddo fe, fel y 49 arall, fywyd newydd yn y wlad heriol hon. Mae'r cyfanswm llawdriniaethau ers sefydlu'r elusen erbyn hyn yn 1,184.



Merched y Wawr

Byddwch yn falch o gael gwybod fod pwyllgor y papur bro wedi gyrru siec i BanglaCymru ar eich rhan. Gol



Braint oedd croesawu Wil Morus Jones nos Fawrth, 15fed o Fawrth. Bu'n trafod gwaith BanglaCymru. Gweler uchod.

Byddwn yn cwrdd nesa am **7.00** (nid 7.30) **nos Fercher 26 Ebrill 2017** yn Ysgol Penallta. Dyma fydd ein cyfarfod blynyddol cyffredinol. Felly, dewch yn llw eleni hefyd.

Cynhelir Ffiliffest ar 17 Mehefin a bydd MyW yno. Felly, dyddiad newydd ein taith flynyddol yw **24 Mehefin** a byddwn yn ymweld â Gerddi Dewstow a Chaerwent a'r olion Rhufeinig. Edrychwn ymlaen i dderbyn manylion.

Mawrth 2017

Cylch Meithrin Tonyfelin - 'da' ymhob agwedd

Dyfarnodd y corff rheoleiddio Addysg Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 'da' ymhob agwedd i Gylch Meithrin Tonyfelin. Yn ystod yr arolwg dirybudd, dros gyfnod o ddau sesiwn edrychwyd ar: Ansawdd bywyd, staffio, rheolaeth a'r amgylchedd a nodwyd fod gan blant 'fynediad da i ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da, ac addas i oed.'

Mae'r Cylch yn darparu profiadau unigryw ar gyfer plant o 2½ oed. Mae'n cynnig awyrgylch hapus a diogel, cyfle i ddysgu drwy chwarae, a rhyddid i ddatblygu i fod yn hyderus ac annibynnol. Maent yn darparu amgylchedd hapus, cynnes, croesawgar lle bo'r plentyn yn ganolog. Gweithia'r grŵp mewn partneriaeth gyda rhieni, cynigant amrywiaeth o weithgareddau tu fewn a thu allan, a phob un yn unol â chyrhaeddiad a datblygiad y plentyn. Mae'r grŵp yn annog ymddygiad derbyniol a pharch tuag at bobl a'r amgylchfyd, yn ogystal â hybu datblygiad corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol y plentyn.

Fy gydnabyddir o fewn adroddiad AGGCC fod Cylch Tonyfelin yn darparu gofal plant o safon uchel sydd yn rhoi hyder i blant i symud ymlaen i'r ysgol gynradd. Nodwyd eu bod yn 'benderfynol i barhau i ddatblygu ymarferion gweithredu fel bod plant yn derbyn gofal da o fewn gwasanaeth sydd yn datblygu.'

Mae'r grŵp wedi cofrestru gyda Sir Caerffili fel darparwr addysg tair oed, felly gall plant sydd yn gymwys dderbyn lle wedi ei ariannu o fewn y cylch ar gyfer y tymor ar ôl iddynt droi yn dair oed. Mae Claire Jones yr arweinydd yn cyd-weithio gyda'r athrawes ymgynghorol ac wedi derbyn 'cynnig rhagweithiol' (active offer) yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg, 'Cynnig rhagweithiol' yn syml yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun gorfod gofyn amdano. Mae'r iaith Gymraeg yr un mor weledol â'r Saesneg. O ganlyniad derbyniodd y Cylch grant o £2,000.

Mae Claire Jones wedi bod yn arweinydd ers 2015, a nododd AGGCC 'Mae gan y person cyfrifol weledigaeth gref o ble yr hoffai weld y ddarpariaeth a beth sydd angen gwneud i gyrraedd y pwynt yna.'

Mae yna bwyllgor newydd gweithgar yn rheoli'r Cylch ac yn cyd-weithio gyda'r arweinydd. Am wybodaeth bellach cysylltwch gyda Claire ar : 07741 497904 neu cylchmeithrintonyfelin@yahoo.com

Mae gan y grŵp Ti a Fi arweinydd newydd yn ogystal. Mae Emily Rees yn gweithio o fewn y Cylch a hi sydd yn gyfrifol am redeg y Ti a Fi bob bore Gwener rhwng 10am-12. Dewch draw am sgwrs a chyfle i blant a rhieni / gofalwyr gymdeithasu.

Cylch Meithrin Tonyfelin

Capel Tonyfelin

Heol Bedwas
Caerffili
CF83 3AR

Dydd Llun – Iau 9am – 12.30

Ti a Fi Tonyfelin

Capel Tonyfelin

Heol Bedwas
Caerffili
CF83 3AR

Dydd Gwener 10am -12

HOMENAJE I'R BRIGADAU RHYNGWLADOL 2016

Dyma ragor am ymweliad Wendy (Lewis) â Sbaen wrth iddi hi ddarganfod mwy am Ryfel Cartref y wlad.

Dydd Mawrth 25 Hydref: Yn y bore roeddem ar y ffordd i Albacete; tir amaethyddol gwastad, ffyrdd llychlyd iawn a safleoedd diwydiannol; gellid gweld y môr trwy un o ffenestri'r bws a brynau isel yn niwl y bore yr ochr arall.

Roedd gŵyl ffilmiau yn Albacete yn dangos rhaglen ddogfen am fenywod yn Rhyfel Cartref Sbaen, lluniau o fenywod a phlant yn cerdded drwy'r eira i lawr llwybrau cul ym mynyddoedd y Pyreneau er mwyn dianc oddi wrth Franco.

Roedd rhain yn f'atgoffa o ffoaduriaid Syria yn ein dyddiau ni yn dianc mewn cychod anaddas a pheryglus.

Dadorchuddiwyd plac yn Agenda de la Estacion, safle'r orsaf, lle cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r Brigadau

Rhyngwladol; yn eu plith roedd Harry Dobson ac Alun Menai

Williams o Gymru. Cafodd yr Internationale ei chanu mewn deuddeg iaith a buom yn canu Viva la Quinta Brigada gyda Christy Moore, Gwyddel oddi cartre, wrth i ni gerdded ar hyd y strydoedd yn ystod y nos.

Roedd y cyngor lleol - Diputacion Provincial de Albacete- wedi darparu lluniaeth ac fe gawsom lawer o hanesion personol teimladwy, un ohonyn nhw am unigolyn o dras Almaenaidd a gafodd ei eni yn ysbyty Albacete ar ôl i'w dad gael ei ladd yn Belchite yn ymladd gyda Bataliwn Thaelmann o'r Brigadau Rhyngwladol.

Dydd Mercher 26 Hydref: Aeth y bws â ni i Madrigueres, y dref lle roedd llawer o'r Brigadau Rhyngwladol wedi lletya. Roedd graffiti wedi'i ddarganfod yn nhŵr yr eglwys, roedd wedi'i grafu gan garcharorion a gadwyd yng nghelloedd y Brigadau am gamymddwyn. Cafodd y graffiti hwn ei guddio gan y pentrefwyr am ddegawdau. Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd yr offeiriad lleol wedi datgan ei fod yn anfoesol ac fe drefnodd iddo gael ei ddinistrio. Er hyn, cafodd ei ddogfennu ac fe ddarparodd yr hanesydd lleol ddisgrifiadau o ffotograffau o'r graffiti ac fe'i cyfieithwyd i bedair iaith. Aethom ar daith gerdded o amgylch safleoedd Madrigueres; trefnwyd byrbryd i ni yn y parc, ac arddangosfa o ffotograffau o'r Brigadau Rhyngwladol. Fe'm denwyd at ddrws ger y sgwâr a gwelais PCE - Parti Comunista España dros y bwa.

Yma yn y bar, gyda ffotograffau o Che, Chavez, Fidel, Lenin a La Pasionaria roedd rhagor o ddelweddau o'r Rhyfel Cartref.

Fe yrrom drwy Madrigueres heibio stryd a gafodd ei hailenwi yn Calle de las Brigadas Internacionales, trwy goedlannau olewydd a thiroedd gwastad ac yn ôl i Albacete.

Roedd y cwmni theatr cymunedol, EA, wedi cynhyrchu drama yn seiliedig ar lythyrau y gwrth-ffasgydd John Cookson i'w dad, gyda thri actiwr yn chwarae'r Americanwr ifanc (yn Sbaeneg). Yn ôl ym mar y gwesty, cyn i'r actorion ymuno â ni, cawsom storïau John Lailin (roedd ei dad ym Mataliwn Lincoln) a Victor Grossman, a dreuliodd flynyddoedd y Rhyfel Oer a'r blynyddoedd dilynol yn Berlin.

Dydd Iau 27 Hydref: Roedd fy Ewyrth Sidney, a fu'n ymladd gyda Bataliwn Abe Lincoln ac a fu farw yn Sbaen, yn lletya yn Albacete ac fe ysgrifennodd ei lythyrau o ganolfan y Groes Goch yma. Doedd y ganolfan ddim yno mwyach ond buasai'r Grand Hotel wedi bod yn dirnod cyfarwydd i'r gwirfoddolwyr. Aethom i'r Brifysgol, lle bûm yn 2001 pan oedd llawer o'r Brigistas yn fyw. Roeddem yn sefyll ar y palmant yn aros am fws i fynd â ni'n ôl i'r gwesty ac yn ddisymwth fe ruthrodd dyn atom. Roedd wedi'i gynddeiriogi gan ein baneri Brigadau a sgrechiodd atom ni "rojos!" (sef "cochion!") gan dynnu ei ffôn symudol o'i boced a galw'r guardia civil.

Tra oedd pobl yn ymresymu ag ef, cyrhaeddodd car heddlu er mawr syndod i ni. Aethant â'n cyfaill o Wlad Pwyl, a oedd â baner y Bataliwn Pwyleg Iddewig, i'r naill ochr ac fe ofynwyd iddi am ei cherdyn adnabod a'i holi. O'r diwedd fe adawsant ond nid cyn i'r un a achosodd y drafferth ysgwyd llaw â phob swyddog o'r heddlu.




Colofn Dafydd Islwyn

Tri llyfr aeth â'm bryd yn ddiweddar. Yn gyntaf, *'The Toolshed Colouring Book'* gan yr arlunydd Lee John Phillips. Llyfr lliwio yn seiliedig ar ei waith yn croniclo trwy frasluniau'r holl drugareddau sydd yn sied ei daid, y diweddar Handel Jones, Aberbargoed.



Llyfr hollol wahanol ydy un a gyhoeddwyd gan Y Lolfa, *'Our Holy Ground - The Welsh Christian Experience'* gan John I. Morgans a Peter C. Noble. Llyfr ydyw sydd yn ceisio cyflwyno pobl Cymru i'w hanes eu hunain. Dyma lyfr cyntaf o'i fath yn ôl y cyhoeddwyd. Mae'n adrodd y stori Gymreig o'r newydd gan gyfuno'r stori seciwlar â'r stori grefyddol. Enw un o'r awduron a dynnodd fy sylw oedd Peter Noble, a dynnodd dros gant o ffotograffau ar gyfer y gyfrol; ffotograffau sydd yn cyfoethogi gwaith ysgrifenedig ei gydawdur John Morgan. Ef a'i briod wedi bod yn gefnogol iawn i addysg Gymraeg yng Nghwm Rhymni. Brodor o Fryn-mawr 'rhen Sir Frycheiniog ydyw. Ar ôl iddo wasanaethu yn y Llu Awyr bu'n astudio ar gyfer y weinidogaeth yn Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ym Manceinion. Ordeiniwyd ef yn 1983 a bu'n weinidog yn Aberhonddu, Cwm Camlais, Caerffili ac Ystrad Mynach ac yn gaplan dros Addysg Uwch yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd mae'n Gaplan Eciwmenaidd ym Mae Caerdydd. Ei barch mawr at ein diwylliant yn amlwg yn ei sgysiau a gawsom yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Fel llawer ohonom, teimlodd ias ddofn wrth glywed darlenniad o 'Weddi'r Terfyn' Saunders Lewis.

Ers blynyddoedd lawer mae gen i ddiddordeb eirias ym mywyd a gwaith Cynan. Onid oedd sôn gwerthfawrogol am ei gerddi a'i ddawn fel darlithydd ar ein haelwyd gynt? A'i gerddi, Aberdaron, Nico Annwyl, Hwiangerddi a Mab y Bwthyn mor apelgar ag erioed. Gwelais y gyfrol 'Creithiau – Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru' – golygwyd gan Gethin Mathews, Cyfrol 25 yn y gyfres 'Y Meddwl a'r Dychymyg Cymraeg'.



Tybed, holais fy hun, ydy Gerwyn Williams, Bangor, wedi cyhoeddi traethawd am Cynan a'r Rhyfel 1914-18? Y traethawd a gyhoeddwyd yn y gyfrol o flaen un Gerwyn Williams ydy un gan Dr Elin Jones, 'Cofio Wncwl Tomi'! Wrth gwrs, cyfeirir at Morgan Jones A.S. Caerffili 1921-1939 mewn tri thraethawd. Ef oedd y cyntaf o'r gwrthwynebwyr cydwybodol i gael ei ethol yn Aelod Seneddol.

Trwy'r traethawd ceir rhannau o hanes Wncwl Tomi a'i deulu sy'n sbarduno'r darlennydd i fyfyrrio. Ynddo ceir adlais o fy nheulu fy hun! Er enghraifft:

"Yn sicr roedd Wncwl Tomi (Y Parchedig Thomas Bevan Phillips 1898-1991) yn arwr i'w deulu ei hun," meddai'r Dr Elin Jones, "ond nid oherwydd iddo ymladd yn y ffosydd a pheryglu ei fywyd dros ei wlad. Iddyn nhw nid ei flwyddyn neu ddwy yn y rhyfel oedd yn ei ddiffinio ac nid dyna uchafbwynt ei fywyd chwaith. Roedd Tom yn arwr i'w deulu oherwydd ei yrfa fel cenhadwr ac am ei fod yn meddu ar ffydd gadarn a phersonoliaeth arbennig iawn."

Eto: "Mae Ffydd Gristnogol yn perthyn i ymylon cymdeithas Cymru yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain ond gan mlynedd yn ôl roedd yn ganolog ac yn hanfodol bwysig i Tomi a'i deulu!"

Beth am ei ateb i gwestiwn ei nith am ei ran yn Y Rhyfel Mawr? "Ar y pryd roeddwn i'n meddwl ein bod yn ymladd dros gyfiawnder ac yn erbyn drygioni. Croesgad oedd i fi ac mae credu hynny'n ei wneud yn bosibl i ddyn ddioddef popeth. Erbyn heddiw, rwy'n gwybod i fi gael fy nhwyllo i gredu felly ond ni allaf wadu ei wirionedd i fi yr adeg honno. *Brainwashing* oedd e mewn gwirionedd, ond nid oeddwn yn gwybod hynny."

A'r frawddeg, "Daeth yn ôl adref ar ddiwedd y rhyfel yn Heddychwyr argyhoeddedig....." yn dwyn i go' nifer fawr iawn o gyn-wasanaethwyr o gyffelyb egwyddor. Yn eu mysg Y Parchedig Lewis Valentine. Hoelion wyth ein cenedl a'n diwylliant.

Mae llawer o sôn yn y newyddion am *newyn yn y Trydydd Byd* a dyma thema cerdd y mis yma. Rydyn ni'n byw mewn *cymdeithas faterol* iawn. Mae'r gerdd *Gwareiddiad*, gan Gerwyn Williams, yn rhestru llawer o bethau rydyn ni eisiau eu cael, ond dydyn nhw ddim yn *angenrheidiol* o gwbl. Mae'r bardd yn *beirniadu* ein gwareiddiad ni achos ein bod ni'n poeni am sut i gael y pethau materol yma ac yn anghofio am y bobl sy'n marw o newyn mewn rhan arall o'r byd. Sylwch ar sut mae e'n defnyddio geiriau Ffrangeg i sôn am y pethau sy'n ffasiynol.

Gwareiddiad

Rhowch i mi
rhowch i mi
rhowch i mi

drowsus *Benetton* a siaced *Next*
esgidiau *Nike* ac oriawr *Swatch*
garej i'r *Golf* a dreif i'r *Peugeot*
Aga i'r prydau Indiaidd llysieuol
rhewgell i'r *Flora* a'r moron organig
seler i'r *Frascati* a bar i'r *Perrier*
Amstrad i'r stydi a chadeiriau *Habitat*
bwrdd coffi i *Cosmo* a *Trivial Pursuits*
llyfrgell i *Planet*, *New Statesman* a *Lol*
lolf a i *Dinas* ac *Eastenders*
oriel i'r Kyffin a barddoniaeth RS
llyfrgell i'r *Guardian* a'r *Observer*

y cwbl sy'n vogue
yn raison d'être
cyn dirywio'n blasé

i lenwi fy nyddiau
dilladu fy nghnawd
Draw, draw'n Ethiopia
ac anialdir Swdan
sypiau esgyrnog
sy'n marw.



gwareiddiad : civilisation

cymdeithas faterol : a materialistic society


beirniadu : criticise

newyn yn y Trydydd Byd : famine in the Third World


angenrheidiol : essential

dilladu fy nghnawd : clothe my flesh

sypiau esgyrnog : bony clusters



Posau'r Plant - yr Atebion





Bywyd a Bwrlwm Bro Allta!

Wythnos Dathlu Cymreictod

Bu Wythnos yr 28ain o Chwefror yn wythnos brysur i ddisgyblion a staff Bro Allta. Ar ddydd Llun yr 28ain lansiwyd Y Siarter Iaith Gymraeg yn yr Ysgol. Daeth Martyn Geraint a Sbarc a Seren i'n diddanu a lansiwyd balwnau ar ddiwedd y dydd. Diolch i'r rhieni hynny wnaeth ymuno yn y dathlu a'r Cyngor Ysgol am weini paneidiau a phice ar y mân.

Ar Fawrth y 1af dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gydag eisteddfod ysgol lwyddiannus a diolch i bawb am ddysgu geiriau'r penillion a chaneuon. Diolch yn fawr iawn i Mrs Siân Jones - cyn-athrawes yr ysgol am feirniadu. Cadeiriwyd Elana Sargent, disgybl Bl 6 yn Fardd yr Eisteddfod am ei cherdd am hyfrydwch Cymru a diolch i Mr Gareth Blainey am feirniadu'r gystadleuaeth.

Ddydd Iau, 2il o Fawrth, dathlwyd Diwrnod y Llyfr mewn steil gyda'r disgyblion wedi gwisgo fel cymeriadau lliwgar byd y llyfrau. Cawsom Ffair Lyfrau lwyddiannus a diolch i bawb am gefnogi. Gwerthwyd gwerth £1,300 o lyfrau - dros £800 o gomisiwn i'r ysgol er mwyn prynu llyfrau i GA 2 - GRÊT!

Cloriannwyd yr wythnos gyda diwrnod coch, gwyn a gwyrdd ar ddydd Gwener y 3ydd. Trefnodd Cyfeillion Bro Allta arwerthiant o gacennau coch, gwyn a gwyrdd ar ddiwedd y dydd er mwyn codi arian i brynu "cit" rygbi a phêl rwyd i'r ysgol. Am wythnos arbennig - diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ymweliadau Blynnyddoedd 5 a 6 i Wersylloedd yr Urdd Llangrannog a Glan Llyn – am hwyl! Hwyllo, marchogaeth, dringo, cerdded, gwibgartio.



Ffarwelio a Chroesawu!

Bu'r 31ain o Ionawr yn ddiwrnod trist i Fro Allta wrth i ni ffarwelio ag un o gymeriadau mwyaf bywiog a lliwgar yr Ysgol – Mrs Gaynor George. Mae Gaynor erbyn hyn wedi ymddeol er mwyn iddi hi a'i gŵr Eryl fanteisio ar y cyfle i deithio i Edwarban y byd – bant â nhw i Batagonia – siwrne saff i chi Gaynor!

Wrth ffarwelio â rhai rydym yn croesawu eraill. Dychwelodd Mrs Bethan James i'w gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth a dydd Mrs Jo Undery yn dychwelyd i'w gwaith cyn gwylliau'r pasg. Croeso nôl i chi'ch dwy!



Llwyddiant ysgubol ein tim pêl droed!



Am dymor a hanner! Tîm Bro Allta sydd ar frig y tabl a phencampwyr clwstwr Lewis eleni. Byddant yn chwarae yn erbyn pencampwyr clystyrau eraill y sir yn y rownd derfynol ym mis Mai. Pob lwc i chi !

Dewch chwi arddwyr—Daeth yr Alwad !!!!!

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, sy'n dychwelyd yn y gwanwyn am gyfres arall.

Y tro hwn, bydd ein garddwyr, Iwan a Sioned Edwards yn ymadael yn achlysurol â'u gardd yn Sir Ddinbych i gynnig help llaw i arddwyr sy'n chwilio am gymorth i gwblhau rhyw joban neu 'i gilydd yn yr ardd, a hynny tra'n sgwrsio'n gyffredinol am arddio wrth gwrs!

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Ac ar wahan i'r garddio, mae eitemau sy'n hybu ein gwerthfawrogiad o'r natur sydd o'n cwmpas yn rhan allweddol o'r gyfres wrth gwrs, gyda phwyslais arbennig ar gadwraeth. I'r perwyl yma, bydd Meinir Gwilym unwaith eto yn ymweld â lleoliadau difyr, i gyfarfod ag unigolion neu grwpiau, ac i ryfeddu ar rywogaethau – planhigiol ac anifeilaidd! – ymhob cwr o'r wlad.

Felly, yn arddwyr neu'n naturiaethwyr, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad os oes unrhywbeth yr hoffen nhw ei rannu gyda'r gymuned ehangach ar draws Cymru.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685300 neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,

Dyma lun a gafwyd gan Mr Byron Shyde, Gilfach. o Ysgol Pengam yn 1916. Bydd un arall y mis nesaf. Tybed a oes gan ddarllenwyr eraill luniau tebyg i rannu gyda ni?



Gweithgareddau

£3

Sesiwn Lego

Oed
6-12

Dydd Llun Ebrill 10 9-11am
@ Siloh, Ystrad Mynach CF82 7AF

£5

Coginio

Oed
6-12

Dydd Llun Ebrill 10 1-3pm
@ Safle Y Gwyndy, Caerffili CF83 3HG.

£3

Creffft Pasg

Oed
6-12

Dydd Mawrth Ebrill 11 10-12pm
@ Swyddfa Menter Caerffili,
Aberbargod CF81 9FW

£1

Sbri Dî-ri

Oed
0-5

Dydd Iau Ebrill 13 10-12pm
@ Neuadd Ysgol Penalltau

mentercaerffili.cymru

bethanjones@mentercaerffili.cymru

IOGA

Sesiynnau wythnosol

Nos Fawrth

5:00-6:00pm

Capel Siloh Ystrad Mynach

Diwr-nod	Clwb	Oedran	Pris
Dydd Llun	Pel droed a Rygbi Bach 4:30-5:15 Neuadd Y Gwyndy	Meithrin i blwyddyn 2	£2.50
Dydd Mawrth	Gymnasteg 4:30-5:15 Neuadd Y Gwyndy	Meithrin i blwyddyn 2	£3
Dydd Iau	Dawns 4:00-4:45 Neuadd Y Gwyndy	Meithrin a Derbyn	£2.50
Dydd Iau	Pel droed a Rygbi Bach 4:30-5:15 Neuadd Gelli Haf	Meithrin i blwyddyn 2	£2.50

Gwersyll Chwaraeon Pasg



Dydd Llun i Dydd Iau 10-13 Ebrill
9:30-3:00 yn ddyddiol
£8 y dydd neu £30 am pedwar diwrnod
Oedran 4-11
Yn neuadd chwaraeon, Safle'r Gwyndy
Cysylltwch a Rachel i archebu lle

Happy Snappers



Lluniau Llawen

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

Boreau Coffi

Bore Coffi Caffi'r Graig Bedwas Dydd Llun (10:30-11:30)

Bore Coffi Wetherspoon's Caerffili Dydd Mawrth (10:00-11:00)

Bore Coffi Wetherspoon's Coed Duon Dydd Iau (10:30-11:30)



Teithiau Clwb Cerdded

Ebrill 5 - Bedwas - Cwrdd ym
maes parcio Caffi Y Graig CF83 8EA

Ebrill 12 - Taith Heol Fan -
Maes Parcio 'Van Road Trails' CF83 3DB

Ebrill 26 - Cyfarfod Cynllunio -
Swyddfa Menter Caerffili, Suite 1,
Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

022 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



**SADWRN
STARAD**

Ebrill 29 2017

10:00-12:00

**Eglwys Oakdale
NP12 0NA**

Clwb Darllen Cwm Ni

Ail Lawr

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Ebrill 3ydd Ymbelydredd

Mai 8fed Rhwng Dau Fyd

Mehefin 5ed Dan Amheuaeth

Croeso Cynnes i Bawb

Dewch yn ôl i ardal Eisteddfod 2016 i ddilyn cwrw Cymraeg amgen!

Penwythnos Dysgwyr Y Fenni

Weekend for Welsh learners in Abergavenny

Gwener 28 - Sul 30 Ebrill

Cwrw amgen ymarferol ar
gyfer defnyddio'r Gymraeg
tu allan i'r dosbarth

Ar gyfer lefelau Canolradd+

Llety penwythnos a gweithgareddau

Pris: £70

Bargen!

Defnyddia dy dafod!

Practise your Cymraeg, have fun and learn about
the history and culture of the area! The course
includes accommodation and activities.



Cymdeithas yr Iaith Gymraeg · de@cymdeithas.cymru · 02920 486469 · cymdeithas.cymru/cwrsyfenni

Saib@Siloh – gyda loan

Cyfarfod defosiynol misol – croeso i bawb

BEIBL BYW

10.30 – 11.30 ar fore Llun

3 Ebrill – Byw yn yr awr olaf (1 loan 2:18 - 28)

5 Mehefin – Trawsnewidiad o'r tu fewn (1 loan 2:29 – 3:10)

3 Gorffennaf - Sefyll o flaen Duw (1 loan 3:11 -24)

Astudiaeth Llunïaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk /

www.siloh.co.uk

CF82 7AF 01443 813617

 **Bargoed
Chiropractic**

01443 879396

Pob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,

Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Llyfrau'r Enfys

Facebook/Llyfraurenfys

Twitter @llyfraurenfys

Vikki Alexander-07970172754



Llun y Mis gan Moyra Armstrong

